Tyfu o hadau

Mae tyfu planhigion o hadau yn golygu y cewch blanhigion yn rhatach a mwy o ddewis pa blanhigion i'w tyfu.



Planhigyn iach yw'r ffordd orau o amddiffyn yn erbyn pla a chlefydau. Mae hyn yn bwysig iawn ar ddechrau bywyd planhigyn. Felly sut mae mynd ati i wneud yn siwr bod eich planhigion yn cael dechrau da?

Beth sy'n rhaid ei gael i'r hadau egino

Tymheredd—cewch wybodaeth ynghylch pa dymheredd y mae hadau ei angen ar y pecyn hadau neu mewn llyfr garddio. Fel arfer mae hadau yn **egino** yn well pan mae'r gwres yn uchel, ond mae rhai hadau angen bod yn oer er mwyn egino.

Gwlybaniaeth—mae'n rhaid i hadau fod ychydig yn wlyb er mwyn iddynt egino a thyfu. Bydd bod yn rhy wlyb yn oeri'r hadau, yn gwthio'r aer allan ac yn annog clefydau ffyngaidd (*fungal diseases*).

Golau—bydd llawer o hadau yn egino un ai mewn tywyllwch neu mewn goleuni. Er hynny, mae rhai yn gwneud yn llawer gwell mewn golau, fel blodau'r gannwyll (*busy lizzies*).

Mae rhai hefyd sy'n egino'n well yn y tywyllwch, fel y trilliw (*pansies*). Felly edrychwch ar gefn y paced neu mewn llyfr i weld beth mae'r hedyn ei angen.

Beth maen nhw ei angen i dyfu wedyn

Unwaith y maen nhw wedi egino nid yw'r eginblanhigion (*seedlings*) angen gwres mor uchel, ond maen nhw'n dal angen bod yn gynnes ac mewn golau da neu byddant yn tyfu'n welw ac yn denau. Mae planhigion sy'n egino hefyd angen cael eu hamddiffyn rhag rhew a barrug. Os ydych yn hau yn yr awyr agored arhoswch hyd nes bod y tymheredd wedi cyrraedd yr isafbwynt sydd ei angen am o leiaf wythnos cyn plannu.



Yr amser nes y byddant yn blodeuo neu'n cynhyrchu cnwd

Dim ond os byddant yn cael eu dechrau dan do y bydd llawer o gnydau araf yn llwyddiannus—petaech yn aros nes bod y tywydd y tu allan yn ddigon cynnes, bydd hi wedi oeri eto cyn i'r planhigion gael amser i flodeuo neu gynhyrchu cnwd.

Trawsblannu

Manteision **trawsblannu** yw eich bod yn gallu tyfu planhigion dan do er mwyn rhoi dechrau da iddyn nhw. Mae hefyd yn golygu eich bod yn gallu tyfu cnydau eraill sy'n tyfu'n gyflym, fel radis, yn y gwely yr ydych wedi'i gadw ar gyfer eginblanhigion sydd wrthi'n tyfu dan do.

Mae rhai planhigion yn hapus i gael eu trawsblannu. Nid yw planhigion eraill, fel moron a phannas, yn hoff iawn o gael neb yn tarfu ar eu gwreiddiau. Mae'n well felly eu plannu nhw lle rydych eisiau iddynt dyfu a chynhyrchu cnwd. Mae eu tyfu mewn **modiwlau** hefyd yn helpu rhag tarfu gormod ar y gwreiddiau.

Osgoi pla a chlefydau

Bydd hau dan do yn amddiffyn eginblanhigion rhag pla a chlefydau pan maent yn wan ac yn fregus. Gan ei bod hefyd yn sychach tu mewn, bydd clefydau ffyngaidd yn llai tebygol o ddatblygu.

Geirfa

Dyfrio – rhoi dŵr i blanhigyn
Egino – pan mae'r hadau yn dechrau tyfu, ac yn magu gwreiddiau a choesyn.
Ffrwythlondeb – faint o faeth sydd yn y pridd
Gwlybaniaeth (*moisture*) – dŵr
Modiwlau (*modules*) – hambyrddau sydd â bocsys neu unedau bychain unigol
Pigo allan – symud eginblanhigion i botyn mwy.
Planhigion unflwydd caled (*hardy annuals*) – planhigyn sy'n para am flwyddyn yn unig ac sy'n gallu byw drwy dywydd oer y gaeaf
Rhidyllu (*to filter/sieve*) – ysgafnhau'r pridd a thynnu talpiau mawr allan drwy ei roi drwy ogor.
Teneuo – lleihau'r nifer o eginblanhigion sydd mewn potyn
Tir rhywiog (*tilth*) – cyflwr haen uchaf y pridd.
Trawsblannu – symud eginblanhigion o focsys hadau i'r man lle maent yn mynd i flodeuo neu gynhyrchu cnwd

Tyfu o hadau – tu allan

Mae'n bwysig paratoi'r pridd yn dda. Rhaid i **ffrwythlondeb** a'r **pH** fod yn iawn ar gyfer y planhigion yr ydych eisiau eu tyfu, yn ogystal â sut mae'r pridd yn draenio dŵr. Rhaid rhoi sylw arbennig i fodfedd uchaf y pridd gan mai dyma lle mae'r hedyn yn egino. '**Tir rhywiog**' yw cyflwr haen uchaf y pridd pan mae'n barod i blannu hadau ynddo. Mae angen tir rhywiog da ar gyfer hadau bychain megis moron a nionod/winwns. I gael tir rhywiog da, cribiniwch y pridd gyda rhaca, gan dorri'r talpiau o bridd pan fo angen.

Hau yn y gwanwyn—pan mae'r chwyn yn dechrau tyfu, mae'r pridd yn ddigon cynnes i blannu hadau. Os ydych eisiau cynhesu'r pridd er mwyn hau yn gynt, gellwch orchuddio'r pridd gyda polythen clir am wythnos neu ddwy cyn hau.

Hau yn yr haf—os yw tymheredd y pridd yn rhy uchel i rai mathau o gnydau, fel letys, yna **dyfriwch** y tir yn dda er mwyn ei oeri cyn hau a'i orchuddio gyda sachliain (*sacking*).

Hau yn yr hydref—mae'r pridd yn gynnes felly mae hwn yn adeg da i hau **planhigion unflwydd caled**, fel pabi Califfornia, a fydd yn gaeafu ac felly yn bell ar y blaen erbyn y gwanwyn.

Os ydych yn hau mewn rhes mae'n rhaid i chi lunio **rhych**. Cwys mewn pridd yw hyn, rhyw fath o ffos denau i blannu'r hadau ynddi. Os nad ydych am hau mewn rhesi gellwch hau ar wasgar, sef gwasgaru'r hadau yn gyfartal ar hyd y pridd. Os yw'r pridd yn sych, dyfriwch y pridd cyn hau. Bydd gwybodaeth pa mor ddwfn i blannu'r hadau a faint o le i adael rhwng yr hadau ar y pecyn hadau. Peidiwch â hau gormod o hadau yn agos at ei gilydd gan y bydd hyn yn gwastraffu hadau ac yn golygu y bydd y lle yn gorlenwi â phlanhigion. Gorchuddiwch yr hedyn gyda phridd mân a phwyswch ar y pridd i'w galedu gyda chefn rhaca/cribyn er mwyn i'r hedyn a'r pridd ddod i gysylltiad da â'i gilydd.

Tyfu o hadau – dan do

Y ffordd draddodiadol o ddechrau hadau dan do yw eu hau nhw i gyd mewn un potyn ac yna **pigo'r** eginblanhigion **allan** i hambyrddau neu botiau unigol.

Y ffordd fodern o wneud hyn yw hau'r hadau yn syth i mewn i **fodiwlau**. Mae hyn yn golygu nad oes raid i chi **bigo'r** eginblanhigion **allan** na'u **teneuo**. Ni fydd yr eginblanhigion felly yn dioddef pan fyddant yn cael eu symud. Mae'r modiwlau yn helpu i atal y planhigion rhag gorlenwi yn rhy agos at ei gilydd ac felly bydd llai o berygl o glefydau yn datblygu.

Compost—mae'n well defnyddio compost organig ar gyfer hau, ond os nad ydych yn gallu dod o hyd i beth, yna dylech ddefnyddio compost heb fawn (*peat-free*).

Beth am fynd ati i wneud eich compost potio eich hun? Darllenwch daflen HDRA '*Growing from Seed Step-by-Step*' i gael ryseitiau a chyfarwyddiadau.

Er mwyn hau, dylech lenwi'r potyn yn ysgafn gyda phridd hyd at yr ymylon – dylai'r pridd fod yn llaith heb fod yn rhy wlyb, nac yn sych.

Sadiwch yr wyneb gyda rhywbeth fflat fel gwaelod potyn arall a rhowch ychydig o hadau yn y pridd.

Gorchuddiwch hadau mawr gyda chompost wedi'i **ridyllu** i ddyfnder sydd yn ddim mwy na lled yr hedyn. Peidiwch â gorchuddio hadau bach iawn.

Rhowch y potyn i sefyll mewn powlen o ddŵr a gadewch i'r dŵr socian i fyny oddi tano. Rhowch gaead neu orchudd am y potyn i atal y gwlybaniaeth rhag dianc. Rhowch y potyn mewn lle cynnes. Unwaith y mae'r hadau wedi egino, tynnwch y caead neu'r gorchudd i ffwrdd.

Tyfu o hadau

Canllaw i fyfyrwyr ar sut i dyfu planhigion o hadau – dan do ac yn yr awyr agored.

garden organic

Garden Organic *for* Schools

www.schoolsorganic.net

cyfieithwyd gan Ganolfan Organig Cymru
www.organic.aber.ac.uk/cymraeg